CYMWYSTERAU CYMRU

Cylch Gorchwyl

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Pwrpas

1. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr) drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, ac uniondeb datganiadau ariannol a'r Cyfrifon Blynyddol.

2. Y Bwrdd fydd yn diffinio ac yn cyfleu parodrwydd y cwmni i fentro a sut mae'n rheoli risgiau allweddol. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am reoli risg ac am reolaeth fewnol. Fodd bynnag, bydd y gwaith o oruchwylio hyn yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rôl

3. Rôl ARAC yw cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y canlynol:

   a. y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu;
   b. dull y sefydliad o reoli risg, a bodloni ei hun o'r ffordd y rheolir risg o fewn y sefydliad;
   c. llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad;
   d. polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, monitro rhoddion a lletygarwch a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig o fewn y sefydliad;
   e. digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgaredd archwilio, gan gynnwys y materion hynny a nodwyd gan archwilio allanol; a
   f. digonolrwydd y trefniadau o fewn Cymwysterau Cymru ar gyfer archwilio mewnol (gan gynnwys y cynllun archwilio mewnol blynyddol), materion archwilio allanol a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys paratoi adroddiad blynyddol ac Adroddiadau Ariannol Cymwysterau Cymru.

4. Bydd hefyd yn goruchwylio'r gwaith o ail-gaffael yr archwilydd mewnol.

5. Bydd ARAC yn goruchwylio diogelwch TG.

Aelodaeth a Phresenoldeb

6. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Cymwysterau Cymru.

7. Penodir aelodau'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n cadw'r hawl, o dan Gynllun Dirprwyo'r Bwrdd, i ychwanegu neu ddiswyddo aelodau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

8. Dylai'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol fynychu'r Pwyllgor ond ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor. Fel arfer, bydd y Penaethiaid Cyllid, Caffael a TG yn bresennol hefyd. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff neu gynghorwyr allanol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau.

9. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r darparwr archwilio mewnol ac archwilio allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

10. Y **cworwm** ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fydd tri aelod.

11. Gwahoddir Uned Noddi Cymwysterau Cymru, fel cynrychiolwyr Gweinidogion Cymru, i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, i fod yn bresennol fel arsylwyr, gan gydnabod y bydd rhai materion i'w trafod lle na fydd yn briodol o bosib i staff Llywodraeth Cymru fod yn bresennol. Ni fydd gan swyddogion yr Uned Noddi unrhyw swyddogaeth yn y cyfarfodydd hyn heblaw gwerthuso priodoldeb y modd y cynhelir gweithgarwch a gwariant Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhannu'r agendâu ar gyfer holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyda'r Uned Noddi, a all ofyn am fynychu cyfarfod sy'n berthnasol, neu i adolygu cofnodion unrhyw gyfarfod.

Cefnogaeth

12. Cefnogir y Pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, a fydd yn brif gyswllt i'r Pwyllgor â'r sefydliad a'r archwilwyr allanol - Swyddfa Archwilio Cymru, yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, yn hwyluso sefydlu'r Pwyllgor, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor (yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau archwilio a risg y sefydliad) mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol ac arbennig.

Modus Operandi

13. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau fel y bo'n briodol gan Brif Weithredwr y sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd drwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

14. Bydd y Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn mewn modd digon amserol i gydlynu'r gwaith o baratoi datganiad cyfredol ar archwilio a sicrhau risg i'r sefydliad gael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Gall y Pwyllgor weithredu a chwrdd tu allan i'r Pwyllgor ffurfiol lle bo hynny'n briodol i gyflawni ei fusnes.

15. Yn ystod ei gyfarfodydd, bydd y Pwyllgor yn archwilio:

    a. Strwythurau/trefniadau rheoli ac adrodd ariannol y sefydliad
    b. Rheolaethau/systemau mewnol y sefydliad
    c. Prosesau sicrhau a rheoli risg y sefydliad

16. Ar yr adegau priodol, bydd hefyd yn ystyried archwiliadau mewnol ac allanol, a'i berfformiad ei hun, a chaiff eistedd mewn sesiynau preifat sy'n eithrio presenoldeb pobl nad ydynt yn aelodau.

17. Bydd y Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad sicrhau blynyddol i'r Bwrdd gan ddarparu adroddiad o'i weithgareddau a barn ar sefyllfa'r sefydliad mewn perthynas â'i gylch gwaith.

18. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod ar wahân gyda chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a'r darparwr Archwilio Mewnol i drafod unrhyw faterion penodol neu faterion mwy cyffredinol y bydd pob un yn dymuno eu codi. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal fel sesiwn breifat.